

www.womansarchivewales.org

MENYWOD PENRHYN Y MWMBWLS

Mae cynllun Plac Glas Abertawe bellach yn ei drydedd flwyddyn ac unwaith eto mae aelodau lleol AMC/WAW wedi llwyddo i sicrhau bod un o'r tri phlac yn coffáu menywod (dwy fenyw'r tro hwn).

Merched ceidwad goleudy'r Mwmbwls, Abraham Ace, oedd y chwiorydd Ace (Jessie Ace g.1861 a Margaret Wright née Ace g.1854). Mentron nhw eu bywydau yn ceisio achub aelodau criw bad achub y Mwmbwls, *Wolverhampton*. Roedd y bad achub wedi mynd allan yn ystod storm fawr Ionawr 27ain 1883 i helpu llong 885 tonn, *Admiral Prinz Adalbert* o Danzig, yr Almaen, wrth iddi hwylio oddi ar ynys allanol Penrhyn y Mwmbwls, a tharo yn erbyn craig dan y goleudy.

Yn ôl datganiad llygad-dyst a gyhoeddwyd yn y papur lleol aeth dwy ferch Mr Ace allan i'r fan lle'r oedd e wedi gweld dynion yn y dŵr. Clywsai fod Mr Ace yn ymddangos yn ofnus y byddai ei ferched yn bodd. Galwodd Maggie allan y byddai'n marw cyn gadael i'r dynion fodd i a chlymmodd hi a'i chwaer ddwy siôl at ei gilydd a'u taflu i'r môr. Dyma sut yr achubon nhw ddau ddyn, William Rosser a John Thomas. Dwedodd Rosser fod merched Mr Ace wedi ei dynnu i fyny. Cyfeiriodd at filwyr (Gunner Hutchings) ac at y merched yn taflu rhaff ato. (Dyfyniad o lyfr Carl Smith *The Men of Mumbles Head*, Gwasg Gomer, 1977.)



Daethpwyd i wybod am ac edmygu'r ddwy fenyw hyn ledled y byd pan ymddangosodd braslun dramatig (o ddarlun a wnaethpwyd gyda chymorth Mr Ace, Ceidwad y Goleudy) ar flaen y papur newydd darluniadol wythnosol *The Graphic* ar 24ain Chwefror, 1883 (gweler uchod).

Yn ôl y bardd Nigel Jenkins (*Real Swansea 2*, Seren Books, 2012), ysbrydolodd eu dewrder y gerdd hir, ond nid manwl gywir, 'The Women of Mumbles Head' gan feirniad theatr y *Daily Telegraph*, Clement Scott. Bu cenedlaethau o blant y Mwmbwls, Abertawe ac ati, yn adrodd y gerdd wreiddiol. Bu'n rhaid i'm mam-gu a'i dwy chwaer, meddai, ynghyd â llu o blant ysgol eu cenedlaeth yn Abertawe, ddysgu'r gerdd ar eu cof. Hyd yn oed yn eu henaint, gallent adrodd darnau hir ohoni. Byddai rhywun yn dechrau adrodd:

*"Bring, novelists, your notebook! Bring, dramatists, your pen!
And I'll tell you a simple story of what women do for men..."*

Ac i fwrdd â nhw, gan basio baton yr hanesyn bywiog – a chan anghofio llinell fan hyn fan draw a neidio ambell bennill – tan y byddai un ohonynt yn datgan y diwedd glo llawn drama:

*"Well, many a heart beat stronger, and many a tear was shed,
And many a glass was tossed right off to the Women of Mumbles Head!"*



O'r chwith: y Cyngorydd Robert Francis Davies, Mrs Joyce Peek née Ace, Paulette Pelosi, Jenny Sabine
25 Chwefror 2016

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru gyfres o saith taflun 'Llusern Hud' wedi'u lliwio â llaw o'r chwiorydd Ace, i'w defnyddio pan gâi'r gerdd ei hadrodd yn gyhoeddus.

Tystia Carl Smith, yr oedd ei fam-gu yn bresennol gyda'r pentrefwyr yn gwyllo'r drasiedi'n digwydd, na wnaeth adroddiadau'r RNLI sôn am wrhydri'r menywod. Dywed hanesydd lleol arall i'r cocs dderbyn medal arian gan Gymdeithas yr RNLI a £50. Derbyniodd Gunner Hutchings ddiolch ar femrwn. Ni chydabu'r RNLI weithredoedd y ddwy fenyw, ond cawsant froetsys aur gan Ymerodres yr Almaen am edrych ar ôl criw'r llong. (Carol Powell, Cymdeithas Hanes Ystumllwynarth). Ar y 15fed Mawrth 2014, agorwyd Tŷ Cychod ysblennydd newydd y Mwmbwls yn swyddogol. Mae paneli gwybodaeth yn nodi trasiedi Ionawr 1883, ond nid oes sôn arnynt am weithredoedd arwrol y chwiorydd Ace. Mae'r ddwy fenyw ddewr

hyn yn haeddu mwy o gydnabyddiaeth na'r cyfeiriad atynt yn y gerdd, hyd yn oed os ydy hi'n 'arwrgerdd'. Dylai Penrhyn y Mwmbwls fod yn hysbys i'r genedl ... am lawer mwy na chael ei grybwyll fel lleoliad yn Rhagolygon Tywydd y Môr.

Paulette Pelosi



Eisteddfod 2016

Llongyfarchiadau i Dr Elin Jones, am gael ei dewis yn Llywydd Anrhydeddus Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau eleni, y fenyw gyntaf i gael yr anrhydedd. Cafodd Elin ei derbyn i'r Orsedd y llynedd, i gydnabod ei gwaith yn hanesydd ac ymgyrchydd dros iechyd meddwl. At hyn mae'n aelod bywiog ac uchel ei pharch o bwyllgor AMC.

Bydd mwy o wybodaeth am yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghylchlythyr Mehefin.

Mae Archif Menywod Cymru / Women's Archive of Wales yn falch iawn i groesawu Catrin Pascoe, y fenyw gyntaf i fod yn olygydd y Western Mail hefyd. Dechreuodd ar ei gwaith ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Mae Lleisiau o Lawr y Ffatri yn dal i gynhyrchu digwyddiadau newydd:

Making It!

Ym mis Mawrth eleni, bydd Lleisiau o Lawr y Ffatri, prosiect hanes llafar llwyddiannus Archif Menywod Cymru, yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn i Making it!, gweithdy sgriptio newydd cyffrous ar gyfer menywod dros 55 mlwydd oed.

Bydd cyfranogion y gweithdy yn elwa ar y cyfle i greu drama sy'n seiliedig ar fywydau menywod cyffredin. Byddant yn archwilio cymeriadau drwy waith byrfyfyr, 'hot seating' a thechnegau theatrig eraill mewn amgylchedd diogel, cefnogol ac o dan arweiniad yr arferwyr theatr profiadol Valmai Jones (actor ac awdur) a Catrin Edwards (cyfarwyddyd a cherddor).



Mae'r gweithdai wedi eu llunio i ddiwallu anghenion y rheiny sydd â diddordeb mewn ysgrifennu sgriptiau creadigol, a rhoi'r cyfle iddynt weld eu gwaith yn cael ei berfformio gan actorion proffesiynol profiadol o flaen cynulleidfa. Bydd gan bob cyfranogydd y cyfle i greu theatr sy'n gosod menywod o oedran arbennig ar ganol y llwyfan! Croeso i'r rheiny sy'n dymuno ysgrifennu yn Gymraeg.

Bydd Making It! sy'n rhad ac am ddim ac yn cael ei gefnogi gan Wyl y Gwanwyn, Age Cymru (dan nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru) ac mewn partneriaeth â Chanolfan Mileniwm Cymru yn cael ei gynnal yn wythnosol yn y Ganolfan yn ystod Mawrth, Ebrill a Mai. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth neu i fynegi eich diddordeb drwy e-bostio

parama2@yahoo.co.uk <<mailto:parama2@yahoo.co.uk>> neu ffonio Catrin ar 07803161388

Ffatri Vox

"Bydd gwledd i'r glust yn eich disgwyl yng nghwmni Inge Thomson wrth iddi berfformio'i gwaith newydd Ffatri Vox, yn arbennig ar gyfer Gŵyl y Llais."

Mewn ymgorfforiad arall eto o 'Lleisiau o Lawr y Ffatri', prosiect hanes llafar Archif Menywod Cymru, mae'r gyfansoddwraig a'r aml-offerynwraig arloesol Inge Thomson o'r Fair Isle wedi derbyn comisiwn i gyfansoddi Ffatri Vox ar gyfer Gŵyl y Llais 2016. Mae'r gwaith newydd dwyieithog wedi'i ddylanwadu'n gryf ac yn cynnwys rhai o'r 'Lleisiau' gafodd eu cyfweld yn ddiweddar ar gyfer y prosiect gwreiddiol gan wirfoddolwyr ac aelodau Archif Menywod Cymru.

Enillodd Inge enwebiad cyfansoddwraig y flwyddyn am ei phrosiect diwethaf "Da Fishing Hands" gan Wobrau Cerddoriaeth Draddodiadol yr Alban BBCMGAlba.


"...swynol, anarferol, teimladwy a hardd, fel byddwn i'n disgwyl gan ddawn mor enfawr."

Martin Simpson.

Ond ar Fehefin y 10fed, mae Archif Menywod Cymru yn falch o ddatgan y bydd Inge Thomson yn perfformio Ffatri Vox yn ogystal â'i set arferol yng Nghaerdydd. Yn ymuno â Inge ar y llwyfan bydd y gantores werin o Orllewin Cymru Julie Murphy, ynghyd â'i phartner cerddorol arferol Fraser Fifield (chwiban, kaval, sacs ac effeithiau) a Tom Cook (electroneg and thrin seiniau byw). Cynhelir y premiere yn Theatr Reardon Smith, CF10 3NP ar Fehefin 10fed @ 6.00pm

Bydd tocynnau ar gael o'r wefan <https://festivalofvoice.wales/whats-on/inge-thomsons-ffatri-vox/>

Menywod yn yr ardd



Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, yn Llanarthne, ger Caerfyrddin yw ymgorfforiad diweddaraf Stad Middleton. Prynwyd y tir yn yr 17^{eg} ganrif gan deulu Middleton, a wnaeth ei ffortiwn yn y fasnach sbeisiau, yn enwedig nytmeg. Erbyn dechrau'r 19^{eg} ganrif y perchennog oedd Syr William Paxton, a ail-luniodd y tŷ ac a drefnodd y tir yn ardd dirlun a pharc dŵr ysblennydd. Dyma pryd roeddent ar eu gorau ond erbyn dechrau'r 20^{fed} ganrif roedd y tŷ a'r gerddi mewn cyflwr difrifol. Yn 1931 llosgwyd y tŷ yn ulw. Daeth y stad i feddiant Cyngor Sir Caerfyrddin a drodd weddill yr adeiladau yn dai cyngor a'r gerddi yn dir ffermio. Yn yr 1980au dewiswyd y stad yn safle ar gyfer Gerddi Botaneg Cenedlaethol a symudwyd y tenantiaid oddi ar y stad.

Yn ddiweddar derbyniodd y Gerddi gyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect Adfer Regentaidd i ymchwilio ac adfer rhai o nodweddion tirlun Paxton. Mae prosiect arall yn cyd-redeg i ymchwilio bywydau'r bobl a fu'n gysylltiedig â'r stad gydol y blynyddoedd.

Mae Louise Austin, Cydlynnydd Treftadaeth y prosiect wedi cysylltu â ni:

'... gwyddom ychydig am rai o'r menywod fu'n ymwneud â'r tirlun hwn. Rhaid talu sylw arbennig i Alice Abadam a oedd yn gryf o blaid y mudiad rhyddfrefinio menywod, a'i chyfnither Vernon Lee, yr awdures. At hyn rydym wedi bod yn casglu tystiolaeth gan gyn-drigolion Stad Middleton pan oedd y Cyngor Sir yn ei reoli fel ffermydd cychwynnol. Rydym yn awyddus iawn i ymchwilio ymhellach i fenywod y tirlun hwn a dathlu eu bywydau fel cyfraniad tuag at ddathliadau canmlwyddiant Rhyddfrefinio Menywod yn 2018. Byddai'n fendigedig petai gan aelodau o Archif Menywod Cymru ddiddordeb mewn ... ymchwilio i'r hanes yma.'

Rhowch wybod i mi os hoffech chi wneud hyn. Mae llyfrgell yn y Gerddi, ond mae'n debyg y bydd gan lyfrgelloedd ac archifau eraill ddarnau bychain o wybodaeth, ac wrth gwrs mae'r rhyngwyd hefyd, felly nid oes angen cyfyngu hyn i bobl sy'n byw o fewn cyrraedd Caerfyrddin. Cysylltwch â mi, ac fe soniaf wrth Louise. Mae'n swnio'n brosiect diddorol tu hwnt.

Jenny Sabine info@womensarchivewales.org

Swansea's 'Bad Girls': Crime and Prostitution, 1870s-1914,

Mae llyfr, sydd ar fin ymddangos, gan Elizabeth Belcham yn adrodd hanesion ochr fwy anonymol i Abertawe, ochr mae hanes yn tueddu i'w hanwybyddu. Roedd porthladd Abertawe yn hafan i longau a'u criwiau o ledled y byd. I gael gorffwys ac adloniant byddai'r criwiau hyn yn mynd i'r dafarn agosaf yn y dociau. Roedd tafarnau ar bron bob cornel stryd yn y Strand a'r Stryd Fawr. Dyma ble byddai'r puteiniaid yn chwilio am gwsmeriaid gan wahodd llongwyr yn ôl i ystafelloedd yn y strydoedd cefn. Os na allent berswadio'r morwyr i brynu diod iddynt, byddai'r merched droeon yn defnyddio dulliau eraill i ddwyn eu harian, ac mae llawer o adroddiadau papur newydd am ladradau wedi'u cynllwynio ymlaen llaw. Dim ond trwy buteindra y gallai llawer o'r menywod hyn ennill eu tamaid, ond roedd yn ffordd beryglus iawn o fyw. Aeth llawer yn gaeth i'r ddiod, a dioddef trais, digartrefedd a chlefydau.

Mae'r llyfr hwn yn archwilio i'r troseddau treisiol yn gysylltiedig â'r ddiod ac achosion cymdeithasol eraill a lenwodd lysoedd yr heddlu, yn Abertawe lle deuid â'r holl fenywod hyn - o Ferthyr, Aberafan a Chastell-

nedd - a'u carcharu, er nad oedd pob un ohonynt o'r parthau hyn o gwbl. Er bod diwygio cymdeithasol yn digwydd ddiwedd cyfnod Victoria, roedd 'Merched Drwg' Abertawe, fel eu cymheiriaid weddill Prydain, ar waelod tomen ddofn iawn, ac ni

châi eu bywydau hwy eu gwella ar unwaith. Yn y cyfamser roedd yn rhaid iddynt oresi. Mae eu hanesion yn dangos penderfyniad a dewrder. Dyma fenywod wedi'u clwyfo gan amgylchiadau, a'u bywydau beunyddiol yn llawn diota, trais, troseddau, newyn a chlefydau, i'r fath raddau fel bod llawer ohonynt wedi ceisio lladd eu hunain, i'w rhyddhau o'u bywydau diflas. Y ddiod fain oedd eu hunig gysur ond yn ei sgil deuai tristwch.

Trwy ddefnyddio ffotograffau, lluniau o'u hwynebau, ac adroddiadau cyfoes cyflawn, weithiau'n cydymdeimlo weithiau'n ddoniol, a gâi eu darllen allan fel y byddwn ni'n gwyllo operâu sebon heddiw, mae'r llyfr yn adrodd storïau bywydau'r menywod eithriadol hyn - roeddent yn ddewr ac yn heriol, yn llwyddo i oresi mewn byd adfydus. Roedd yn fywyd caled a'r fwyaf ffit, yn holl ystyron y gair, oedd yn goroesi droeon

Elizabeth F Belcham.

Mae'r rhifyn hwn yn rhifyn de Cymru, Abertawe-ganolog braidd. Helpwch fi, os gwelwch yn dda, i newid hyn yn y rhifyn nesaf trwy anfon eitemau o newyddion neu erthyglau o Wrecsam, Llandudno, Rhyl, Caernarfon, Machynlleth ac ati - ac i fyny trwy ganolbarth Cymru!

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan bob aelod. Os gallwch anfon eich cyfraniad yn ddwyieithog gwerthfawrogir hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at:

newsletter@womensarchivewales.org

Dyddiad derbyn defnydd i'r rhifyn nesaf: Dydd Gwener 27Mai 2016

Os hoffech gopi print mawr o'r Cylchlythyr hwn, yn Gymraeg neu'n Saesneg, cysylltwch â Caroline trwy'r cyfeiriad ebost uchod neu ar y ffôn 01873 890540.

Golygwyd y cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens.

Menywod yn y Rhyfel Byd Cyntaf: Diolch am eich cyfraniadau a pharhewch i'w hanfon ataf



Mae ein prosiect CDL yn tynnu tua'i derfyn swyddogol yn awr, ac mae'n gwefan i fod i fynd yn fyw ar 14^{eg} Mawrth! Ond nid dyna fydd y diwedd fodd bynnag, gan y byddwn yn parhau i gofnodi a llwytho defnyddiau tan 2019, o leiaf.

Rydym wedi darganfod ein bod wedi gor-gyllido rhai agweddau yn ein cyllideb i'r Gronfa. Felly cawson ganiatâd i ddefnyddio'r arian dros ben i gynhyrchu pedwar poster dwyieithog yn darlunio agweddau ar fywydau menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, â'n anfonir y rhain i ysgolion uwchradd ledled Cymru. Diolch i CDL am gefnogi hyn.



Dyma rai esiamplau o'r defnyddiau a gasglwyd hyd yn hyn. Mae rhai eisoes ar ein gwefan a chaiff y gweddi eu llwytho'n fuan. O'r chwith i'r dde: Violet Annie Davies, arwres ifanc; Charlotte (Lottie) Roberts, a briododd yn ei gwsg Mintai Wirfoddol Orfodol (VAD). Gweithwragedd ffatri arfau, gan gynnwys Sybil Seabourne (3edd o'r chwith gyda rhwymyn braich) ac (isod) Mair Jenkins, Abertawe, tua 8 oed mewn gwsg nyrs. Os oes gennych ffotograffau tebyg, neu ddogfennau yr hoffech eu rhannu, cysylltwch â mi, o.g.y.dd.





caroline_fairclough@yahoo.co.uk neu info@womensarchive.org.

Mae angen rhai lluniau o gofebion rhyfel arnom o hyd.

Os oes rhywun yn meddwl mynd ar daith y gwanwyn yma ac yn teithio tua thref Tywyn ym Meirionnydd, mae angen llun y gofeb sydd ym mhorth yr eglwys arnom; sef cofeb Jane Roberts, fu farw pan suddwyd ei llong ysbyty HMHS Salta oddi ar Le Havre yn 1917. Hefyd mae angen llun enw Jane E Jones, sydd ar gofeb Cynwyd, ger y Bala arnom.

Pwy yw Pwy yng Nghymru 1921 - diweddariad

Bydd darllenwyr sylwgar yn falch i wybod mod i wedi llwyddo i ddarganfod mwy am Miss Eunice Doherty – y nofwraig



brofiadol (nid gwych fel y meddyliais i!) yn Who's Who in Wales, 1921. Roedd yn un o dair nofwraig - merched y cyn-bencampwr nofio a'r entrepreneur W Doherty.

Ymddengys i'r chwirydd Doherty ganu a dawnsio mewn digwyddiadau codi arian yn ardal Abertawe. Nid yw'n glir pam fod Eunice yn Who's Who ond nid ei chwirydd..

Cambria Daily Leader 28 Mehefin 1918. Dyma rai o'r

llu toriadau o'r wasg amdanynt trwy garedigrwydd Papurau Newydd Ar-lein.